# Glas

Bwletin misol Llén natur

Rhif 180

Ionawr 2023

**gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**




Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

CYMUNED Llén natur


RHIF ELUSEN Cymdeithas Edward Llwyd 1126027

## Terfysg ar 8 Ionawr 2023



**Ar 8 Ionawr cyhoeddod Gill Brown** bostiad yn disgrifio dau glec taran a fflachiadau mellt yn eu rhagflaenu'n agos, yn Waunfawr am 8 o'r gloch. Disgynnodd genllysg yn drwch ac yn drwm hefyd. Cafwyd ymateb annisgwyl o uchel i'r terfysg ar cenllysg gan eraill yn fuan wedyn. Gofynnwyd i'r 100+ a ymatebodd, sef 'hoffi' etc., i ymhelaethu ar eu profiad. Dyma groniclo'r ymateb ar ffurf map (map isod a gwefan MAPIAU LLÊN NATUR). Gobeithir y bydd aelodau, trwy gyhoeddi hwn, yn gweld y cyfle y mae FB yn ei roi i ni ar achlysuron tebyg yn y dyfodol, i gasglu llawer o ddata gwreiddiol yn gyflym iawn.

**Mae dosbarthiad yr ymatebion gwahanol ar y map yn awgrymu mai terfysg o gyfeiriad y môr oedd mellt a tharannau 8 o'r gloch, 8 Ionawr 2023.**




Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni: llennatur@yahoo.co.uk


## Ynni a thannwydd yn nyddiaduron WB

Ymchwil **Dewi Lewis**

### CYFEIRIADAU AT DANWYDD YN NYDDIADURON WILLIAM BULKELEY, BRYN DDU, LLANFECHELL

A hithau'n gyfnod pan fo tanwydd yn cael sylw blaenllaw am sawl rheswm diddorol, mae pori yn nyddiaduron William Bulkeley am gyfeiriadau at danwydd yn gwneud synnwyr. Mae 'na nifer o gofnodion diddorol at sawl math o danwydd ac at sawl pwrpas. Rhaid cofio nad oedd cyflenwad trydan na nwy yn ei ddydd ac felly roedd yn rhaid troi at gyflenwadau gwahanol er mwyn cael tân i goginio a gwres i gynhesu.

Dyma graffig yn dangos pwysigrwydd cymharol y gwahanol ffynonnellau o ynni yn ôl y nifer o gofnodion i bob un.




### Coed



Dim ond dau gyfeiriad y deuthum ar eu traws at gasglu coed ar gyfer eu llosgi:

- *"Oct 7 (1749) My Gardiner & the boy in the Garden were all this week lopping & shapeing the forrest Trees in the fields & cutting off what were superfluous & anoyance to their Neighbours, by which I got a great deal of usefull Timber, besides brush wood for burning a great deal more:"*
- *"Oct 9 (1756) - carrying back from Bodelwyn brushwood & branches of trees that had been lopp'd there."*

Y gair a ddefnyddiodd William Bulkeley oedd *"brush wood"* sy'n awgrymu coed o faint bychan. Tybed a oedd llosgi *"logs"* mewn ffasiwn yn ystod y cyfnod? Roedd yr arfer o neilltuo ardal ar gyfer coed yn bodoli ym Môn ers y Canol Oesoedd:

> *"The total lands of the borough as they appear in rental of 1305 covers an area of 1486 acers of 1333 acers 1 rood arable, 16 acers 1 rood meadow, 104 acers pasture, 4 acers turbary and 28 acers underwood"* ***The Medieval Boroughs of Snowdonia* tud 51. Lewis 1912**

Mae'r cofnodion sy'n cynnwys *'logs'* yn awgrymu rhywbeth mwy sylweddol na chlapiau o goed tân.

Maent yn awgrymu rhywbeth cysylltiedig efo *'boards'*, rhywbeth mwy defnyddiol, gwerthfawr a pharhaol na choed tân.

### Eithin



Er mai dim ond dau gyfeiriad y deuthum ar eu traws at gasglu coed fel tanwydd, mae'r dyddiaduron yn frith o gyfeiriadau at gasglu eithin ("Gors/ *gorse*") ar gyfer ei losgi. Mae William Bulkeley yn nodi mewn nifer o'r cofnodion beth oedd diben a phwrpas casglu'r eithin, sef sicrhau cyflenwad o danwydd ar gyfer y gaeaf.

*"19th.(Tachwedd 1736) - The Wind S. dark & cloudy, with driveing wett — Mist all day, my people at home carrying the Gorse with 5 drags for Winter use."*

Dim ond un cofnod y deuthum ar ei draws sydd yn cyfeirio'n benodol at y defnydd a wnaed o'r eithin fel tanwydd:

*"5th June (1756) people were all this week employed in fencing about the corn, providing Gorse both for the house and drying of Oats·"*

Mae'n anodd credu bod Bulkeley yn cynhesu honglad o dŷ fel Brynddu trwy losgi eithin. Rhyw dan siafins di-wres syn dod o eithin. Poethwal i gychwyn tân mwy efallai?

Gall y 'sychu ceirch' fod ar gyfer eu malu yn rhwyddach yn y felin neu ar gyfer creu brag (*mault*, gweler isod).




Mae'r cofnod isod o fis Hydref 1735 yn dangos fod gweithwyr William Bulkeley yn casglu nid yn unig eithin ond hefyd *"thorns"* (drain efallai ?) a *"fern"* (rhedyn efallai ?) fel tanwydd ar gyfer y gaeaf:

*"October 20th.(1735) The Wind N. blowing fresh, & generally Sun shiny, and drying well all the day: My people all this week are carrying home the Gors & thorns from Bodelwyn and the fern from Coydan for Winter fuel."*

Mae'n ymddangos bod gweithwyr yn treulio tipyn o amser yn torri rhedyn a'i osod mewn teisi.

*"9th (Hydref 1735): My people were these two days cutting fern and carrying them home and makeing them into stacks"*

Deuthum ar draws un cofnod lle mae William Bulkeley yn nodi'n benodol at ba bwrpas y defnyddiwyd y rhedyn.

*"3ist (Hydref 1752). The Wind S.W. blowing fresh cloudy & dark all day, but made no rain: These two days my people are gathering fern & carrying it home for drying Mault."*

Gweler yma (tudalen 2 - Glas 162 ): Llawr sychu grawn (i greu brag?) ar fferm Pontdolgadfan, Llanbrynmair. Addaswyd gwahanol danwyddau i sychu grawn ac i fragu.




Ceir nifer o gyfeiriadau at brynu neu gario glo yn y dyddiaduron. Yn y cyfeiriadau mae William Bulkeley ar adegau yn nodi o ble y prynodd y glo, maint y llwyth a'r pris a dalwyd amdano. O'r cyfeiriadau am lo yn y Tywyddiadur mae'n amlwg ei fod yn gorfod talu trethi go sylweddol am ei lanio a'i ddadlwytho. Mae'n amlwg hefyd bod y gwaith o ddadlwytho'r glo yn golygu tipyn o waith i weithwyr William Bulkeley.

*"18th.Feb(1736) The Wind S.E. very calm, warm & pleasant weather, a good deal of snow fell this morning, but all melted before 9. a clock. to day I carryed my Coal home from Cemaes, that was brought & bought at Beighton in flintshire for 6s. 8d. a tun. I had 9 tun of it. Tho. Prichard the Smith of LLanfechell had 7 barells of it, & Owen Warmingham the Smith that lives at Torman in LLanbadrick had 2 barrells. Mr. O. LLoyd measured it out 4 Chaldrons & a quarter".*

*"30th Sept (1758) The Wind W. very calm; cloudy & dark weather but dry all this day also: Carryed home to day from on board Hugh Edward of Amlough's vessell 9 Tons of Coals bought at Warrington: (I had bought i0 Ton & one I let Mr. Thomas Morris have ) the Coal cost there 3L. is. 8d. Port charges at Liverpool & Warrington 7s. 10d. at Beaumares . 4s. 8d. Paid for the freight 2L. 5s. Duty for the Coal measured out 4 chaldrons & 8 bushels 20s. 9d.(2/1/5d. returned for promp payment ) gave fowk the officer 2s. so that the 10 Tons of Coal cost 7L. 2s".*

Sialdron *(chaldron)* oedd y modd o fesur glo. Nid oedd yn fesur safonol ac roedd yn amrywio o ardal i ardal. Diddymwyd y mesur ym 1963. Mae rhai o'r cofnodion yn nodi ym mhle y prynnodd William Bulkeley y glo:

*"i9th.(Hydref 1757) - The Wind E. very calm Sun shiny, fair & very warm all day, but a great hoar frost & some frost on the water this morning, My people with the help of my good Neighbours discharged & carryed home from a Vessell at Cemaes 9 Ton of Coal bought at Sandy Croft Mark in Chester River which cost me there 8s. 3d. a Ton being 3L. i4s. 3d. The Port Charges I paid was i5s. 8d. & Paid Hugh Edwards for the freight 40s. 6d. at 4s. 6d. a Ton . had all carryed home before 2 in the Evening."*

*"29th.(Mai 1737) The Wind S.S.W. blowing very high & cold, a dirty mizling rain in the Evening as yesterday, went to Cemaes to see a Boat of Coal bought me at the Dungeon near Liverpool, & cost there 6s. 6d a Tun."*

*"26th (Ionawr 1743). The Wind S. S. W. blowing high, cloudy & overcast all the morning, made a great rain about 3 in ye Evening which brought the Wind to N.W. where it blew a rank storm & continued so all night. Pd. into the hands of Humphrey Mostyn 40s. to buy 'coal' for me in Liverpool River: "*

Mae'n ddiddorol sut mae William Bulkeley yn cyfeirio at safleoedd. Dwi'n cymryd mai'r Afon Dyfrdwy oedd *"Chester River"* ac mai'r Afon Merswy oedd y *"Liverpool River"* Tybed ai *"dungeon"* oedd term a ddefnyddiodd William Bulkeley am bwll glo? Noder mai *"Dungeon near Liverpool"* oedd hwn. Roedd yna hanes cloddio am lo yn ne orllewin Swydd Gaerhirfryn yn mynd yn ôl i'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Mewn erthygl ar y diwydiant dywedodd Hollinshead am gyfnod cynharach: *"The most frequented route for south-west Lancashire coal was, however, the six miles or so by land from the production areas in Prescot parish to Liverpool".*

***An Unexceptional Commodity:**Coal in South-West Lancashire in the Sixteenth Century*

**Ai o Prescot y daeth glo William Bulkeley ar yr achlysur yma ?**

Mae'n debyg mai'r drefn oedd mewnforio'r glo mewn llong/cwch i Gemaes ac yna ei ddadlwytho a'i gludo oddi yno yn ôl i Lanfechell. Bu tridiau ym mis Awst 1747 yn dridiau o ddadlwytho glo i weithwyr William Bulkeley ac mae'n amlwg bod *"tricks"* Humphrey Mostyn a'i fab yng nghyfraith William Peters wedi amharu ar y dasg:

*"i0th.The Wind N.E. very calm, sun shiny & fair all day & extream hot & Sultry from 8 in the morning till 4 in the Evening. My people were today discharging Wm. Peters Vessell that brought me Coals from Mostyn.*

## Ynni William Bulkeley - parhad

*i1th.The Wind N. very calm, sun shiny hot & Sultry all day: my people all this day likewise (instead of reaping the Corn ) are all employed in carrying home the Coals from Cemaes.*

*12th The Wind E.N.E. very calm, Sun shiny hot & Sultry all day: finished to carry home my Coal, which I would have done in one day had it not been for the tricks of Humphrey Mostyn, and his Son in law Wm. Peters."*

*"24th.Sept The Wind from N.W. in the morning to E.N.E. in the Evening very calm, but cloudy & overcast all day. my people this Evening are prepareing to go to Berw to fetch Coal this night. & sent 24s. 4d2/1 to pay for it".*

Mae'n debygol fod y gweithwyr wedi gweithio'n galed i gludo'r glo oherwydd ar yr 25ain o Fedi ceir y cofnod yma:

*"The people were at home with the Coal (being two tons three Barrels &half by i in - the Evening":*

Y gweithwyr yn mynd i Bentre Berw [Cors Ddyga] i nôl glo gyda'r nos. Roedd glo yn cael ei gloddio yno ers oes y Tuduriaid a'r awgrym yw fod William Bulkeley yn troi at gyflenwad lleol mewn argyfwng?




Mae 'na fwy o gyfeiriadau at gasglu a defnyddio mawn na glo. Mae William Bulkeley yn defnyddio'r termau *"turf"*, *"peat"* a *"sods"*. Mae'n amlwg bod cyflenwad o fawn i'w gael yn lleol a cheir wyth cyfeiriad at fawnog.

*"i0th (Mehefin 1758) - The Wind S. blowing high and generally dark & cloudy weather for the most part of the day except 3 or 4 hours in the Evening: My people all this week (but this day) were plowing the Pinfold at Coydan, & to day they are carrying the Turf a shore from the turbary."*

*"3d.(Mehefin 1751) - The Wind S. blowing very high and cold all day, yet generally dry and Sun shiny: Allowed William Owen the Miller 30 shillings – to open the Ditch from the middle of Clegyrog ucha Turbary to LLyn y Gors Rydd, in such a manner as may effectually carry off the water from the Said Turbary to the Pond aforesaid."*

*"6th (Mehefin 1740) The Wind S.S.W. blowing very high and cold; made one great Shower about i in the Evening, the rest of the day was dry; My people employed in the mornîng in carrying the Oats to Cemaes........; in the Evening they were carrying the Turf out of the Turberry to spread them to dry."*

Y drefn oedd cludo'r mawn o'r fawnog a'i sychu cyn adeiladu tas. Ceir cyfeiriad bod gwartheg yn bygwth chwalu rhai o'r teisi a bu raid eu diogelu gydag eithin.

*"5th (Medi 1750) - The Wind E . N. E. very calm, sun shiny fair and warm all this day: My people are digging up Gorse to day and carrying of them home to put about the Turf stacks to prevent the Cattle from throwing them down that are grazing in Cae'r Gegin."*

Mae'n anodd gwybod a oedd gwahaniaeth rhwng *"peat"*, *"turf"* a *"sods"*. Ceir rhai cofnodion sydd yn defnyddio dau derm:

*"16th (Gorffennaf 1735) - had all my Turf and Sods home, safe; dry and in good order"*

*"29th (Gorffennaf 1736) - my people both these days carrying of Sods or peat from Coydan for Winter fuell."*

*"9th(Gorffennaf 1740) - my people all this day are carrying home the Turf & peat from Cae'r Mynŷdd in 2 Carts, and 5 horses with panniers besides."*

Deuthum ar draws pedwar cyfeiriad at ddefnyddio lludw mawn neu redyn ar gyfer ei daenu ar y tir:

*"17th.(Ionawr 1740) - The Wind E.N.E. blowing fresh & very cold, & the Sky very clear; and freezing very hard, insomuch as the Ash-hill that my people have been carrying this week past in panniers is become so very hard that a man is employed to dig there in with Pick – Axes & Iron Crows as in a Stone quarry, & carry it away in great pieces as so many stones"*

*11th (Hydref 1750) - The Wind E. blowing fresh and cold, cloudy & dark all day; with some drops of rain both morning and Evening: My people have been these 4 days carrying Peat Ashes (that was by Jane Prŷs house in Bodelwyn ucha ) upon Mossy parts of Bodelwyn Meadows."*


*31st(Hydref 1741) - pd. 1s. for peat Ashes to Ann uch Huw Lewis, which I had carryed to the field behind Ferem.*

*22d (Awst 1739) - Agreed with John Prys Humphry of LLanelian for all the Fern Ashes [he] himself hath, & what he can procure for 11s. a pegget gave him 10s. 6d. in part of payment.*


Efallai mai'r cyfeiriad yma yw'r mwyaf diddorol am ddefnyddio lludw mawn:

*"5th (Chwefror1737) - The Wind S.W. Sun-shiny and fair. my people all this week (when fitt) a plowing at Coydan, set some Beans to day in the Orchard, haveing a fortnight ago pruned the fir trees in the Walks by the House, which occasioned their bleeding very much, I prevented it by the following Method,I took a Bason full of fine turf Ashes, & which a handfull of Tow I rubbed over the wounds one by one with the Tow, & then clapping it in the Ashes, I clapped it smartly on the wounded parts & there the Ashes stuck like a plaister, I never saw it done, but believing it to be rationall, I tried it, & do not question but it will answer the Ends ."*

**Mae'n amlwg bod meddwl dyfeisgar gan William Bulkeley a'i fod yn fodlon arbrofi. Dyn cyn ei amser.**





Dechrau'r haf oedd tymor lladd mawn i William Bulkeley




Roedd ymofyn glo yn eithaf anhymorol gan WB

# Ydych chi'n gyfarwydd a lluniau Llion Griffiths?
















Mae aelodau CYMUNED LLÊN NATUR wedi dotio gyda lluniau Llion Griffiths ers sbel o amser. Dyma ddolen i chi weld y gyfres diweddaraf: Lluniau Llion Griffiths - chwiliad syml ydi hi. Mae'n werth treulio amser i rhyfeddu at olygfeydd ein milltir sgwâr.







# Pentre bach *"Tin Town"*

**Hanes amhrisiadwy cyfnod byr a diflanedig yn hanes Meirionnydd. Diolch yn bennaf i Keith O'Brien am rannu cymaint gyda Llên Natur.**


Pentre bach *"Tin Town"* (wedi'i godi i gymryd mantais masnachol o'r milwyr gerllaw. **Keith O'Brien**






Mae gena i gof da o alw yn Bronaber/*Tin Town* i gael brecwast 'trwy'r dydd' pan yn brentis hefo Manweb - adeiladau *'tin sink'* oedd y rhan fwyaf ohonynt..... Ac yn anffodus fe losgwyd un o'r gwreiddiol i'r llawr (ger yr hen ysgol) ychydig flynyddoedd yn ôl... **Mici Plwm**






## O atgofion y diweddar Ann Williams, Bronaber:

"Dychwelwn at hen Eglwys Ynys Tomos a adeiladwyd gan drigolion yr ardal tua 1820, ond yn 1872 fe'i addaswyd yn Ysgol / Eglwys i gyfarfod â gofynion yr ardal, ond parhaodd y gwasanaethau ar y Sul am gyfnod. 'Roedd tŷ wrth dalcen yr Eglwys a bu'n gartref i amryw yn eu tro gan gynnwys Morris a Doli Thomas a'u plant Ellis a Nellie cyn iddynt symud i'r Blaenau. Bu Rhys Jones, Gelligoch a'r teulu yno hefyd a Morris Roberts (Tŵr Maen gynt) a'i briod Mary Roberts a'r plant, Eluned a Lowri. Yna symudodd Mr a Mrs O'Neill yno o Isfryn a chymerodd Nellie, y ferch hynaf, Isfryn drosodd gyda'i phriod Robert Lewis o Lan Ffestiniog a ganwyd iddynt saith o blant - Victor, Jean, Nyra, Brenda, Nellie, Robert ac Aneurin.

Yn 1905 cynyddodd nifer y plant yn yr ysgol gyda dyfodiad plant swyddogion y Gwersyll, ac erbyn hyn 'roedd angen ysgol gyda dau ddosbarth. Cafwyd adeilad sinc dros dro o eiddo'r Cyngor Sir a'i leoli ger Granville a'r Prifathro oedd William Jones, a Maggie Ann Parry gyda'r plant iau. Agorwyd yr ysgol ar 17 Hydref 1905 gyda deuddeg ar hugain o blant.




Ond yn 1911 aed ati i adeiladu ysgol newydd arall gan y Bwrdd Addysg ar safle'n uwch i fyny, a defnyddio cerrig oddi ar Fferm Bronaber. Agorwyd yr ysgol hon 9 Mawrth 1912. Yr Ysgolfeistr olaf yn yr ysgol sinc oedd y cyntaf yn yr ysgol newydd. Cafwyd te parti ddiwrnod agor yr ysgol a chyfarfod cyhoeddus gyda'r Henadur R Morris, Glyndŵr, yn Llywydd a diwrnod arall i'w gofio i holl blant yr ysgol oedd trip i'r Bermo ym Mehefin 1915 gyda thracsiwn a wagen yr Henadur Evan Tudor, yr Aber, a chariwyd meinciau o'r ysgol i'r plant eistedd arnynt yn y wagen.

Bu newid o dro i dro gyda'r Prif Athrawon, a gadawodd D J Williams ym Medi 1913 a daeth Lewis Davies yno o Abergeirw ac yna Ellis Owen yn Awst 1916 a oedd yn enedigol o'r Traws, ond yn fuan bu raid i M A Parry gymryd gofal yr ysgol tra bu Ellis Owen yn y Lluoedd Arfog, a dychwelyd i'r ysgol yn 1919, cyn gadael wedyn am Ysgol Bontddu yn 1922. William Ellis Williams, Arwel a'i dilynodd a bu yno hyd Hydref 1931, pryd y daeth Dewi Williams o Safleoedd i lenwi'r swydd, brodor o Fôn. Yn ystod ei gyfnod ef cafwyd rhai gwelliannau fel canolfur cydrhwng y ddau ddosbarth, ac ystafell i sychu dillad yn y cefn. Addaswyd yr ystafell hon yn gegin pan ddaeth y cinio ysgol i rym yn 1942, a Martha Jones, Bwlchffordd gynt yno'n gogyddes. 'Roedd amryw o athrawon eraill wedi bod yn eu tro gyda'r plant iau hefyd sef Gwen Ann Lewis o'r Traws, Mary Ellen Davies a May Roberts o'r Blaenau ac Anna Evans, Bryn Dedwydd fel myfyrwraig, ond bu farw'n ifanc cyn cael mynd i'r Coleg. Diwedd Chwefror 1921 daeth Ann Vaughan, Llys Fychan, yno'n athrawes ifanc ddeunaw oed ac aros am dair blynedd ar hugain. Yn y cyfamser daeth yn briod â Peter Cain o Ynys Manaw. Dilynwyd Mrs Cain gan Ann Jones, Bet Roberts, Christine Morris, Miss Williams, Corris ac Iola Jones Evans, Arthog.

Yn nechrau'r pedwar degau dilynwyd y Prifathro Dewi Williams gan Mathew O Griffiths o Ysgol Harlech, ond yn frodor o'r Gwynfryn. Gadawodd yntau, fel ei ragflaenydd am Dalsarnau yn 1947 a'r Prifathro olaf cyn i'r ysgol fynd dan ofal un athro oedd James M Jones o Bennal.

Bu raid iddo ef adael yn Rhagfyr 1957 a phenodwyd Iola Jones Evans i ofal yr ysgol, a'r plant dros naw oed i fynd i Ysgol Trawsfynydd. Bu Iola Wyn Jones yno hyd fis Gorffennaf 1961 pan gaewyd yr ysgol ddyddiol am y tro olaf wedi'i nifer y plant ostwng i wyth a chludwyd hwythau i'r Traws, ac erbyn hyn 'roedd Iola W Jones yn briod â Joseff Wyn Jones, Brynteg."


Ewch yma (tud.7 Bwletin Llên Natur 147) i weld hanes ffliw Sbaen 1918 yn Ysgol Traesfynydd. Gwaith nesaf, ymchwilio llyfr log Ysgol Bronaber oedd mae'n debyg yn llawer mwy agored i'r pandemig mawr gan mai plant milwyr o bellafion oedd yn mynychu honno.

Roedd mam yn arfer cerdded i'r ysgol [Bronaber] o Hafod Gynfal cyn i'r teulu symud i Ty'n Twll. **Eryl Crump**

**Oes gan rhywun lun o Hafod Gynfal cyn y chwalfa?**

**Golygydd**



# Hanes Melin Gaerwen




**Oes modd adfywio hwn? Ddaru y felin yma gau yn 1910.**

Hen felin ddwr Gwalchmai, ar ôl iddi gau cafodd ei newid wedyn i gynhyrchu trydan. Ag oedd trigolion y pentra oedd gyda'r modd yr hawl i gael cyflenwad o drydan am 5c yr wsnos (petha wedi newid). Gwalch ydan ni yn galw yr afon hyd heddiw (afon felin) ag o fewn can-llath mae na allt or enw (allt felin). Wedi treulio dyddia gora fy oes yn afon felin, yn trochi a chwara yn y coed, a chwara'r  gêm neidio afonydd, ydi plant yn dal i chwara'r gêm yma? Oedd cytundeb os yn chwara'r gêm, oedd rhaid triol neidio yr afon, dim ots pa mor llydan, wedi neidio i ganol afon twfn sawl tro, ond hynnu yn well na cael flich i mewn (achos dyna be oedd y drefn).

Mi oedd 'na hen ffynnon hynafol o fewn deg llath i'r hen felin yma, ond dim llawer iw weld heddiw ma, ond dwi yn siwr bod gan Sharon Jones lun or ffynnon ag enw i un o'r plant yn chwara ar dô y felin.

**Oswyn Williams**

## Cyfleon heddiw

Os oes criw a diddordeb mewn edrych ymhellach ar gynhyrchu trydan, cysylltwch. Mae criw da a gweithgar yn Nyffryn Ogwen a Peris a fyddai yn fodlon rhannu profiadau.

[Grant Paisley o gwmni DEG wedi cynnig help hefyd.] **Paula Roberts**

Afon Felin yn agos iawn at galon plant sydd a'u gwreiddiau yn pentre Gwalchmai. Dwi wedi treulio rhan helaeth o mhlentyndod yno yn cael hwyl (ac ia, cael ambell i socsan !) **Liz Evans**

Ohh Mam bach - fase H&S yn cael cathod bach gweld y plantos yn chware mewn lle mor beryg. **Ann James**

Adnabod y lle fel cefn fy llaw **Oswyn Williams**

Nel Lewis Ty'n Llain yw un o'r genethod ar dô y felin. Yn anffodus does gen i ddim llun o'r ffynnon ond mae gwybodaeth amdani ar y linc: Well Hopper. **Sharon Jones**

Sharon, rydw i yn cofio mynd hefo mam i nôl dŵr yfed o'r ffynnon yn y 50au. Byddai mam yn sôn am fynd i chwarae yng nghafn y felin pan oedd hi yn blentyn. Rydw inna yn cofio adfeilion y felin. Byddai mam hefyd yn tynnu ein sylw at yr *iris* felan wyllt, neu gelaets,  a dyfai yn yr ardal gorsiog, lle bu llyn y felin. Mae fy chwaer yn cofio JCB y bwrdd dŵr yn chwalu cerrig y ffynnon. Roeddynt yn suddo gwely yr afon ar y pryd er mwyn cael draenio o gwmpas Llyn yr Hendre yn uwch i fyny. **Olwen Evans**

Olwen, mae yr *Iris* felan yn dal i dyfu yna ! Gen i brin gof o'r ffynnon. **Sharon Jones**

Diolch o galon am yr hanes a'r llun yma. Roeddan ni'n chwara neidio dros afonydd hefyd. Yn Parcia ar gyrion Pont Lloc, roedd yna ynys fechan yn y Crychddwr ac roedden yn neidio o'r clogwyn ar un ochr a glanio ar yr ynys aa wedyn ymlaen dros y rhan arall o'r afon. Roedden yn droednoeth yn neidio rhag ofn i ni gal socsan. **Anita Myfanwy**







Ma na adeilad tebig lawr ar y ffordd i draeth pistyll Oswyn Williams yn ôl y son cynhyrchu trydan i hen blas pistyll ydoedd, mond muriau sydd ar ol yna erbyn heddiw, byddai dŵr yn cael ei ollwng or llyn sy gwr yr eglwys i lawr ir adeilad yma i gynhyrchu trydan. **Osian Williams**

# Disgyrchiant

**Y fran yma wedi dysgu defnyddio disgyrchiant â cherrig ar y traeth i falu'r gragen** **Alun Williams**



■ Dwi wedi gweld ambell i fran (ifanc?) yn gwneud hyn nid ar gerrig ond ar dywod!! **Llên Natur**

■ Gwylannod oedd yn gwneud hyn ers talwm. Oes rhywun wedi gweld hyn? **Ll N**

■ 16/1/1914- Llandudno *A very grey and misty day .....*[aneglur] *walk in the afternoon on the West Shore with Robert Jones. We go as far as the Black Rock (Black Shale?) and look at the fine examples of striated glacial boulders. and [sic] the huge black boulder, crowded with initials and dates that have been cut on its surface the earliest date I can find is 1878.* ***Robert explains to me, the method the gulls employ to break open the cockle shells. Flying to a hight*** [sic] ***above hard ground with the cockle in its bill, the bird drops it, instantly descending after it. In this way the shell is broken and the gull is able to devour the soft body of the mollusc. This process Robert has witnessed over and over. We picked up several of these broken shells - on the sands this afternoon.*** *Find young whelks in the egg capsules on the tideline.*

**Dyddiadur Harry Thomas, Penyrallt, Nant y Gamar, Llandudno, 1914**

# Corlannau Didoli'r Carneddau

## Cywaith Nigel Beidas ⓗ ⓒ






















Mae Llên Natur yn falch y mis yma o allu rhoi hwb bach i brosiect trylwyr Nigel Beidas. Efallai byddwch chi'n cael cyfle rhywbryd i wrando ar Nigel wrthi yn dangos lluniau a thrafod y pwnc mor unigryw hwn sy'n ymwneud â bywyd cefn gwlad fynyddig gogledd Cymru: corlannau didoli defaid y Carneddau.

Dechreuodd popeth gydag anrheg o fri: drôn. Aeth Nigel ati i'w ddefnyddio a thynnu llun a gafodd gryn sylw yn y byd ffotograffiaeth y mae Nigel y perthyn iddo. Mae clawr Glas 180 (Glas.166 hefyd) a'r detholiad hwn o luniau yn rhoi syniad o'r amrywiaeth o gorlannau, o ran eu siâp yn y lle cyntaf. Mae Nigel erbyn hyn wedi arbenigo yn y dull rhyfeddol o ddidoli defaid ar y cyd y mae ffermwyr Cymru, Gwlad yr Iâ, Swistir a Chroatia yn ei rannu.

Mae Nigel wrthi'n gweithio ar ddull o gyhoeddi ffrwyth ei ddarganfyddiadau ond, wrth ddisgwyl, rydym ni yn eich annog i weld y map rhyngweithiol sydd i'w gael ar ein gwefan Mapiau Llên Natur:

Cliciwch
**Mapiau Llên Natur**